PWYLLGOR APELIADAU'R CYNGOR

DYDD MAWRTH, 30 IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Susan Goddard(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gavin Hill-John a/ac Williams |

9 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

10 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

11 : PENODI'R CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Susan Goddard yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

12 : ACHOS 1

Mae'r Adroddiad a'r Atodiadau'n gyfrinachol ac ni ddylent gael eu cyhoeddi oherwydd paragraffau 12 a 21 Rhannau 4 a 5 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff y cyhoedd ei wahardd o'r cyfarfod pan gaiff yr eitem hon ei chyflwyno yn unol â'r un ddeddfwriaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor Achos 1 mewn perthynas ag apêl y panel gwahardd i wahardd person oddi ar y Rhestr Aros Tai.

PENDERFYNWYD: Penderfynodd y pwyllgor i ohirio'r cyfarfod er mwyn i'r Swyddogion Tai gael rhagor o wybodaeth. Ar ôl i'r wybodaeth hon ddod i law, adolygodd y Swyddogion Tai yr achos a chafodd yr apelydd ei ychwanegu at y Rhestr Aros Tai.

13 : ACHOS 2

Mae'r Adroddiad a'r Atodiadau'n gyfrinachol ac ni ddylent gael eu cyhoeddi oherwydd paragraffau 12 a 21 Rhannau 4 a 5 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff y cyhoedd ei wahardd o'r cyfarfod pan gaiff yr eitem hon ei chyflwyno yn unol â'r un ddeddfwriaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor Achos 2 mewn perthynas ag apêl y panel gwahardd i wahardd person oddi ar y Rhestr Aros Tai.

PENDERFYNWYD: Y byddai penderfyniad y Cyngor mewn perthynas ag Achos 2, fel y nodir yn yr atodiad i'r agenda sydd wedi'i heithrio, yn SEFYLL.